# Adroddiad y Bwrdd Gweithredol i Gomisiwn y Cynulliad – Tachwedd 2007

## 1. Nodau Strategol Comisiwn y Cynulliad

### 1.1 Nod Strategol – hyrwyddo ac ehangu cyfranogiad pobl mewn datganoli

Bydd y Comisiwn yn trafod y strategaeth gyfathrebu ddrafft ym mis Rhagfyr. Cafodd tair elfen sy'n gysylltiedig â'r strategaeth eu rhoi ar waith, sef sefydlu bwrdd golygyddol y we, datblygu strategaeth digwyddiadau a strategaeth brand. Mae'r meysydd eraill â blaenoriaeth yn cynnwys Astudiaeth Dichonolrwydd o adeilad y Pierhead, lleoliad ein swyddfa yn y Gogledd yn y dyfodol a phroses gaffael gwasanaethau digwyddiadau ac arddangosfeydd yn y dyfodol.

Prif ganolbwynt strategol y tîm cyswllt â'r cyfryngau ar hyn o bryd yw esbonio pwerau newydd y Cynulliad a sut y cânt eu defnyddio a sicrhau bod y cyfryngau'n dod yn fwy manwl gywir yn y ffordd y mae'n cyflwyno'r Cynulliad, yn arbennig wrth wahaniaethu rhwng y Cynulliad a Llywodraeth Cymru gan nodi bod Cymru'n aml yn gwneud pethau'n wahanol i Loegr erbyn hyn. Rydym wedi bod yn gweithio'n agos â Betsan Powys, golygydd gwleidyddol BBC Cymru ac Alan Edmunds, golygydd y Western Mail, yn y maes hwn.

Croesawodd y Cynulliad ei ymwelydd rhif 500,000 ar 23 Hydref, sef Maura Buckley, a hynny ar ei phen-blwydd yn 71 oed. Dosbarthwyd datganiad i'r wasg a chafodd sylw yn y wasg yn lleol.

Y gwesteion ar podcast wythnosol Vaughan Roderick i drafod eu gwaith yn y Cynulliad oedd dau aelod o'r Tîm Cyfathrebu Allanol, sef Des Downes, tywysydd teithiau a Sarah Johnson.

Rydym wrthi'n trafod y posibilrwydd o noddi categori sy'n dwyn y teitl *Menywod yn Hyrwyddo Democratiaeth (Women Advancing Democracy*) yn y gystadleuaeth Cymraes y Flwyddyn 2008. Categori newydd fydd hwn ac yn un a fydd o bosibl yn codi proffil merched sydd wedi hyrwyddo dealltwriaeth/cyfranogiad ym maes democratiaeth.

Cafodd y Cynulliad sylw eang yn y wasg o ran ei ddefnydd o'i bwerau deddfu newydd ac o'r ffordd y mae'r Pwyllgor yn craffu ar gynigion deddfwriaethol Llywodraeth Cymru. Mae enghreifftiau yn cynnwys:

i. Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol Ann Jones ar systemau chwistrellu dŵr mewn adeiladau newydd.

ii. Y posibilrwydd o ddefnyddio'r Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol ynghylch plant sy'n agored i niwed i gyflwyno'r gwaharddiad ar smacio yng Nghymru.
iii. Gwaith craffu'r Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth a'r Pwyllgor Craffu ar y Mesur Gwneud Iawn am Gamweddau'r GIG.

Yn gyffredinol, mae'r cyfryngau wedi canolbwyntio mwy ar y cyfarfod llawn na'r pwyllgorau y tymor hwn, a hynny o ganlyniad i nifer y dadleuon a datganiadau ar faterion o bwys. Cafwyd eithriadau i hyn, fel ymchwiliad yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig i TB mewn gwartheg ac adroddiad y Pwyllgor Archwilio ar LG.

1.2 **Nod strategol – dangos undod, arweinyddiaeth ac ymateb yn hyderus i newid cyfansoddiadol**

Ceir rhestr o'r meysydd y mae gan y Cynulliad y pŵer i ddeddfu arnynt - ei gymhwysedd deddfwriaethol - yn Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Bydd cymhwysedd deddfwriaethol yn cynyddu wrth i Senedd y DU drosglwyddo pwerau i'r Cynulliad, drwy ddeddfwriaeth y DU neu drwy gymeradwyo Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol. Mae'n hanfodol bod Aelodau, staff y Cynulliad ac amrywiaeth eang o ymarferwyr polisi a chyfreithiol allanol yn cadw cofnod o'r jig-so o bwerau deddfu ac, wrth roi tystiolaeth i'r Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig y llynedd, ymrwymodd y Llywydd i ddarparu fersiwn gyfunol a fersiwn a chaiff ei diweddaru'n rheolaidd o Atodlen 5.

Mae'r rhestr a ddisgrifir gan y Llywydd ar gael ar ein gwefan. Fel estyniad o'r gwasanaeth a ddarperir, mae Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau wedi cynhyrchu cyfres o "*Nodiadau Tracio Pwerau'r Cynulliad*". Caiff y rhain eu diweddaru'n rheolaidd a byddant yn cynnwys manylion unrhyw newidiadau, rhai arfaethedig a rhai a gyflawnwyd, i bob un o'r meysydd polisi yn Atodlen 5 i'r Ddeddf a'r dull y caiff pwerau eu trosglwyddo neu y cawsant eu trosglwyddo e.e. drwy Fesur Seneddol neu drwy Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor. Nid yw'r gwasanaeth hwn ar gael yn unrhyw le arall a gobeithiwn y bydd yn werthfawr i unrhyw un sydd â diddordeb mewn potensial deddfwriaethol y Cynulliad.

1.3 **Nod strategol – dangos parch, uniondeb a sgiliau llywodraethu da**

Mae pedwar cynghorydd annibynnol, yn cynnwys Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol, wedi cael cynnig swyddi anweithredol i gynghori'r Comisiynwyr ac uwch reolwyr ar bob agwedd ar eu gwaith. Rydym wrthi'n trefnu cinio neu swper cyflwyniadol ar gyfer Comisiynwyr, y Bwrdd Gweithredol a Chynghorwyr Annibynnol. Y pedwar yw:

- Mair Barnes, sy'n gweithio mewn nifer o swyddi fel cyfarwyddwr anweithredol, cyn gadeirydd Vantios plc a Rheolwr Gyfarwyddwr

Woolworths plc ac a oedd arfer gweithio fel cyfarwyddwr anweithredol yr Adran Masnach a Diwydiant a Swyddfa'r Cabinet.

- Mae'r Athro Robert Pickard wedi cael nifer o benodiadau cyhoeddus a llawer ohonynt ym maes iechyd a lles. Ymhlith ei benodiadau presennol, mae'n gadeirydd "Which". Mae'n wyddonydd yn ôl ei gefndir.
- Cyfarwyddwr Atebion Busnes Tŷ'r Cwmnïau yw Tim Knighton. Yn y gorffennol, roedd ganddo swydd uwch yn Tesco, Goldman Sachs a chwmnïau mawr eraill yn y sector cyhoeddus. Mae'n gyfrifydd cymwysedig ers 20 mlynedd.
- Richard Calvert yw Cyfarwyddwr Strategaeth ac Adnoddau'r Asiantaeth Safonau Bwyd. Mae'n gyfrifydd cymwysedig ac, ymhlith ei benodiadau eraill, mae'n aelod o Banel Cynghori Ei Mawrhydi ar Arfer Gorau ym maes rheoli cyllid. O ganlyniad i'w brofiad penodol, byddwn yn gofyn i Richard gadeirio'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol.

Mae ein harchwilwyr mewnol, Bentley Jennison, wedi dechrau eu gwaith gyda ni. Cytunwyd ar raglen waith, ac eleni, byddant yn canolbwyntio ar lywodraethu corfforaethol, rheoli risgiau, rheolaethau ariannol, y gyflogres, caffael a chynllunio ar gyfer parhad busnes.

Derbyniwyd adroddiadau archwilio cadarnhaol gan Swyddfa Archwilio Cymru mewn cysylltiad ag ochr Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad o Gyfrifon Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer 2006/7. Nid oedd gan yr archwilwyr unrhyw bryderon ynghylch arferion cyfrifo Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad am y flwyddyn honno, ac ni ddaethant o hyd i unrhyw wendid yn ein system reoli.

Yn fewnol, bydd Fforwm Cyllid, yn cynnwys Rheolwyr y Gyllideb a'u Cydgysylltwyr Cyllid, yn cyfarfod yn rheolaidd ar gyfer rhaglen ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ar lywodraethu corfforaethol a safonau cyllid.

### 1.4 Nod strategol – gweithio'n gynaliadwy

Cyhoeddwyd Datganiad Amgylcheddol ar y Fewnrwyd a cheir copi ohono yn atodiad B er gwybodaeth. Drafftiwyd Cynllun Gweithredu ar Ddatblygu Cynaliadwy ar gyfer y Trydydd Cynulliad ac rydym nawr wrthi'n casglu rhagor o syniadau ac awgrymiadau gan Aelodau Cynulliad a'u Staff Cymorth a staff eraill drwy Weithdai'r Tîm Gwyrdd.

Rydym bob amser yn awyddus i ddysgu o arfer da gan eraill, ac ymwelodd ein Swyddog Caffael a Chynaliadwyedd â Pharc Cenedlaethol Arfordir Penfro i ddysgu am sut y mae'r Parc yn gweithio

ac yn hyrwyddo dulliau cynaliadwy o weithio a chaffael cynaliadwy. Rydym wedi dechrau trafodaethau â Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ar gydgysylltu partneriaeth gwrthbwyso carbon rhwng y Cynulliad a'r tri Pharc Cenedlaethol yng Nghymru.

1.5 **Nod strategol – darparu'r gwasanaeth gorau, a hynny yn y ffordd fwyaf effeithiol**

Mae Cynllun Gweithredu ein Cynllun Iaith Gymraeg wedi'i gymeradwyo gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg a groesawodd ein dull o roi arweiniad i staff. Mae ein cydgysylltwyr yr iaith Gymraeg wedi cytuno ar offeryn cydymffurfio ar gyfer monitro cynnydd yn eu meysydd gwasanaeth.

Ym mis Hydref, ni oedd yn gyfrifol am gynnal cyfarfod rhyngseneddol blynyddol penaethiaid TG. Roedd y digwyddiad yn un llwyddiannus lle cafodd tîm TGCh Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad y cyfle i ddangos y dechnoleg a ddefnyddir gan Aelodau'r Cynulliad a staff yn y Siambr. Creodd y cyfleusterau hyn gryn argraff ar y dirprwyon hyn, a oedd yn cynrychioli pob Senedd a Chynulliad y DU.

Rydym wedi ailsefydlu grŵp o Staff Cymorth Aelodau Cynulliad i ganolbwyntio ar sut i wella'r gwasanaetha a ddarperir iddynt hwy a'r Aelodau y maent yn gweithio iddynt. Cyfunwyd hyn â rhaglen o ymweliadau gan staff Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad â swyddfeydd etholaethol i gwrdd â Staff Cymorth lleol er mwyn deall unrhyw broblemau o ran y gwasanaethau cymorth a ddarperir gennym.

Er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i ddarparu lefel uchel o hygyrchedd i'r Senedd, cafodd adroddiad mynediad gwreiddiol y Senedd ei ailystyried yng ngoleuni profiad a chan ystyried unrhyw broblemau ac adroddiad gan y cyhoedd. Awgryma hyn bod angen i ni wneud rhai newidiadau mewn tri maes eang:-

- Better definition on terracing and public areas around the Senedd;
- Some extra manifestation to glass within the building;
- Arwyddion clir sy'n fwy hygyrch i'r bobl hynny sydd â nam ar eu golwg.

Rydym wedi gofyn i benseiri'r adeilad i'n helpu gyda'r gwaith hwn er mwyn i ni ddod o hyd i'r cydbwysedd iawn rhwng uniondeb y cynllun a mynediad hwylus.

## 2. Gweithgareddau a digwyddiadau allweddol

### 2.1 Y Swyddfa Gyflwyno'n cyfarfod â'r grwpiau gwleidyddol

Mae'r Swyddfa Gyflwyno wedi dechrau rhaglen o gyfarfodydd addysgol â'r grwpiau gwleidyddol yn y Cynulliad. Nod y cyfarfodydd yw rhoi cyngor ar yr amrywiaeth o 'wasanaethau' a ddarperir gan y Swyddfa Gyflwyno a beth yw'r ffordd orau y gall y swyddfa roi cymorth i Aelodau a Staff Cymorth o ran cyflwyno Busnes y Cynulliad , y broses Balot ar gyfer Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol a Mesurau neu Gofrestr Buddiannau'r Aelodau.

Hyd yn hyn, mae'r Swyddfa Gyflwyno wedi cyfarfod â grŵp Plaid Cymru a'r Ceidwadwyr Cymreig (mae cyfarfodydd â'r blaid Lafur a'r Democratiaid Rhyddfrydol wrthi'n cael eu trefnu). Ceir sawl aelod o Staff Cymorth newydd ym mhob grŵp a bu'r cyfarfodydd yn gyfle da i gysylltu â'r rheini sy'n newydd i'r broses. Bu'r adborth o'r cyfarfodydd yn gadarnhaol ac mae'r Swyddfa Gyflwyno'n bwriadu parhau i ddatblygu'r dull rhagweithiol hwn o weithio.

2.2 **Y Pwyllgor Deisebau**

Mae'r Pwyllgor Deisebau wedi mabwysiadu egwyddorion arweiniol eang i'w helpu i ystyried deisebau unigol. Ar hyn o bryd, maent yn casglu gwybodaeth ac yn dysgu gwersi o fannau eraill i sicrhau y bydd y gweithdrefnau a ddatblygir ganddynt yn glir ac yn effeithiol i bawb dan sylw. Derbyniwyd 28 o ddeisebau ers sefydlu'r Pwyllgor, sy'n cyfateb i tua 80 y flwyddyn, ond nid yw'r Pwyllgor wedi datblygu patrwm o weithgarwch hyd yn hyn. Mae'r Pwyllgor yn ystyried ugain o ddeisebau ar hyn o bryd ac mae un wedi'i chau yn ffurfiol. Mae'r Pwyllgor wedi mabwysiadu amrywiaeth o ffyrdd o ymateb i ddeisebau yn cynnwys gwahodd deisebwyr i gyflwyno'u hachos mewn cyfarfod Pwyllgor, trosglwyddo deisebau'n ffurfiol i bwyllgorau eraill neu i Weinidogion a thrwy geisio rhagor o wybodaeth.

2.3 **Recriwtio**

Cynhelir nifer o ymarferion recriwtio yng Ngwasanaeth Seneddol y Cynulliad, gyda llawer ohonynt yn deillio o gymeradwyaeth y Comisiwn o gynigion i gynyddu'r cymorth sydd ar gael i Aelodau sy'n ymgymryd â'u swyddogaethau craffu a deddfu. Caiff pump uwch glerc newydd eu penodi, a bydd hyn o ddiddordeb penodol i Aelodau, o gofio graddfa a lefel y recriwtio, a bydd y clercod hyn yn cynorthwyo gwaith Gwasanaeth y Siambr, Gwasanaeth y Pwyllgorau a'r Swyddfa Ddeddfwriaeth. Buom yn ffodus iawn i ddenu safon uchel o unigolion i'r swyddi hyn – mae tri ohonynt yn aelodau o staff Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad, bydd un yn ymuno â ni o Lywodraeth Cynulliad Cymru ac un arall o'r Swyddfa Gartref.

2.4 Mae swydd Cyfrifydd a grëwyd o'r newydd yn y Gwasanaeth Cyllid wedi'i llenwi. Mae hyn yn allweddol i ni'n bodloni ein hymrwymiad i

sefydlu safon uchel o ran cadw cyfrifon ariannol a chynhyrchu cyfrifon cywir ac amserol, a'n nod yw eu gosod erbyn toriad haf 2008.

## 3. Adroddiad cyllidol

3.1 Mae ein perfformiad cyllidebol ar gyfer y cyfnod sy'n dod i ben ar 30 Medi yn dangos cyflwr sefydlog o gymharu â'r mis blaenorol, gyda thanwariant o 2% (£353,000). Mae hwn yn gyson â'r dybiaeth o gronfa wrth gefn o 2%. Mae 52% o'r gyllideb a gymeradwywyd, sef £33.582m, wedi'i gwario neu ei dyrannu eisoes. Mae'r cronfeydd wrth gefn heb eu dyrannu mewn diffyg ariannol ar hyn o bryd wrth i ni aros am gymeradwyaeth y Cynnig Cyllideb Atodol. Gosodwyd hwn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar 5 Tachwedd 2007 a bydd yn arwain at gynnydd o £3.04m tuag at gyllideb y Comisiwn a £5.139m arall i dalu'r costau sy'n trosglwyddo o Lywodraeth Cynulliad Cymru.

3.2 Cafwyd y tanwariant mwyaf sylweddol ar gyfer y cyfnod (£300,000) yng nghyllideb lwfansau Aelodau. Y rheswm dros hyn yw bod llai wedi hawlio lwfansau yn dilyn yr etholiad ond, yn unol â'r arfer yn y gorffennol, rhagwelwn y bydd mwy wedi hawlio yn y pen draw na'r llynedd. Defnyddiwyd arian a ryddhawyd drwy achosion o danwariant mewn mannau eraill i gwblhau'r gwaith yn Ystafell Giniawa'r Aelodau ac i wneud gwaith adnewyddu i'r swyddfa er mwyn gwella'r gwasanaethau a ddarperir.

3.3 Mae tybiaethau prisio'r gyllideb ar gyfer cytundeb cyflog 2007/8 yn cyfateb yn eang i'r cynnig a wnaed i staff sy'n adlewyrchu'r cynnig a wnaed i staff y Llywodraeth. Bydd y cynnig hwn yn destun balot a gynhelir ar hyn o bryd.

## 4. Gwybodaeth arall

4.1 Ceir rhestr o'r wybodaeth a ddatgelwyd ers yr adroddiad diwethaf o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn Atodiad A. Gall y Comisiynydd gael y wybodaeth lawn ar gais.

**Atodiad A**

## GWYBODAETH A RYDDHAWYD YN DILYN CEISIADAU I GAEL MYNEDIAD AT WYBODAETH

## HYDREF 2007

- Darparu mynediad at y cyflwyniadau a wnaed i ymchwiliad Adroddiad Purchon i Nantygwyddon.
- Copi o’r contract enghreifftiol ar gyfer cynnwys staff cymorth Aelodau’r Cynulliad.

## GWYBODAETH A GAIFF EI HATAL YN DILYN CEISIADAU I GAEL MYNEDIAD AT WYBODAETH

## HYDREF 2007

Ni chafodd unrhyw wybodaeth ei hatal yn ystod y cyfnod hwn.

**Atodiad B**

# COMISIWN Y CYNULLIAD
# POLISI AMGYLCHEDDOL 2007-08

Mae Comisiwn y Cynulliad, drwy Wasanaeth Seneddol y Cynulliad, yn gyfrifol am sicrhau bod yr eiddo, y staff a'r gwasanaethau gofynnol yn cael eu darparu er mwyn sicrhau bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gweithredu'n effeithiol. Wrth wneud hyn, bydd y Comisiwn yn ystyried yr egwyddor o hyrwyddo datblygu cynaliadwy.

Yn ei weithrediadau pob dydd, mae Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad yn effeithio ar yr amgylchedd, yr economi a chymunedau Cymru ac yn ehangach drwy brynu a defnyddio adnoddau, gollyngiadau nwyon tŷ gwydr a'r gwastraff a gynhyrchir. Rydym yn ymrwymedig i leihau effeithiau negyddol ein gwaith ac i annog y rheini sy'n gweithio gyda ni i wneud yr un peth. Ein nod yw lleihau, ailddefnyddio ac ailgylchu a gwella ar hyn bob blwyddyn.

Yn benodol yn ystod 2007/8 byddwn yn:

- Sicrhau bod Swyddfa'r Cynulliad yn y Bae yn cadw Lefel 5 Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd;
- Sefydlu llinell sylfaen o ran gollyngiadau carbon ar gyfer ystad y Cynulliad a phennu targedau i'w lleihau;
- Annog pobl sy'n defnyddio'r adeilad i ddefnyddio llai o ddŵr ac ynni;
- Datblygu lefel uchel o ymwybyddiaeth o faterion gwyrdd ymhlith y bobl sy'n defnyddio'r adeilad a datblygu diwylliant sy'n eco-gyfeillgar ac sy'n dibynnu ar wybodaeth ac ewyllys da pobl;
- Treialu cyfleusterau compostio ar y safle a symud tyweli papur o'r toiledau;
- Sefydlu llinell sylfaen a phennu targedau ar gyfer lleihau effeithiau gollyngiadau carbon o ganlyniad i drefniadau teithio'r Cynulliad a chynnwys elfen gwrthbwyso carbon;
- Cyhoeddi Cynllun Teithio Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan nodi ffyrdd amgen o deithio a defnyddio dulliau mwy cynaliadwy lle y bo teithio'n angenrheidiol;
- Cynnal hunanasesiad caffael cynaliadwy fel sail ar gyfer gwelliannau yn y dyfodol;
- Dim ond prynu papur wedi'i ailgylchu sy'n cynnwys o leiaf 75% o wastraff defnyddwyr ar gyfer pob math o waith argraffu, copïo neu ysgrifennu nad yw'n arbenigol.

Byddwn yn monitro ein cynnydd yn rheolaidd yn erbyn Cynllun Gweithredu Datblygu Cynaliadwy Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad ar gyfer 2007-2011, ac yn adolygu'r Polisi Amgylcheddol hwn bob blwyddyn. Mae'r amcanion heriol hyn yn dibynnu ar ein help a'n cymorth ni i sicrhau ein bod yn parhau i wella yn y maes hwn. Gyda'n gilydd, gallwn sicrhau bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n arwain drwy esiampl.

***Lorraine Barrett AC/AM***
**Comisiynydd y Cynulliad sy'n gyfrifol am Gynaliadwyedd / Assembly Commissioner for the Sustainable Assembly**

***Claire Clancy***
**Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad/ Chief Executive & Clerk to the Assembly**

Rhifyn: Medi 2007 Adolygiad: Mawrth 2008